**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

At: Cyng David Wisinger (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Marion Bateman, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips a Owen Thomas

CS/MP

Dydd Iau, 23 Ebrill 2020

Maureen Potter 01352 702322
maureen.potter@flintshire.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Yn ystod sefyllfa frys, rydym wedi addasu ein prosesau fel y gellir gwneud penderfyniadau brys. Rydym wedi cyflwyno proses gwneud penderfyniadau 'Prif Swyddog Unigol' fel bod penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud gyda thryloywder ac atebolrwydd. Bydd penderfyniadau'r Prif Swyddog yn cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, Cadeirydd y Cyngor ac Arweinydd y Cyngor.

Fodd bynnag, **bydd safbwyntiau holl aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn rhan hollbwysig o'r broses gwneud penderfyniadau.**

Gweler ynghlwm ddau adroddiad mewn perthynas â cheisiadau cynllunio. Dyma geisiadau a fyddai fel arall yn disgyn tu allan i gyfnod amser sydd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i benderfynu arnynt, ac ni all y ceisiadau aros tan y tro nesaf i'r Pwyllgor gyfarfod ar gyfer gwneud penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae gallu'r ymgeiswyr i apelio yn erbyn methiant yr Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniad ar y cais hefyd wedi ei gyfyngu gan fod gweithgarwch yr Arolygiaeth Gynllunio wedi ei gyfyngu gan effeithiau'r feirws Covid-19.

Gofynnir yn garedig i Aelodau ddarllen yr adroddiadau brys yn yr atodiad a rhoi eu sylwadau yn ysgrifenedig, dros e-bost i'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), erbyn **5pm** ar **Dydd Iau, 23ed Ebrill, 2020.**

Yn gywir

Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

1 **ADRODDIAD UWCH SWYDDOG CYNLLUNIO**

Amgaeir adroddiadau canlynol yr Uwch Swyddog Cynllunio:-

| **Rhif yr eitem** | **Cyfeirnod y Ffeil** | **DISGRIFIAD** |
|---|---|---|
| **Ceisiadau sy'n cael eu hadrodd er penderfyniad (A= adroddiad er cymeradwyaeth, R= adroddiad er gwrthodiad)** | | |
| **1.1** | **060006 – A** | Cais Llawn - Diwygiad Rhan i'r Cynllun a Ganiatawyd yn flaenorol o dan 046067 - Codi 19 o Unedau Rhandy mewn 3 Bloc yng Nghlwb Gweithwyr y Fflint, Woodfield Avenue, Y Fflint (Tudalennau 5 - 28) |
| **1.2** | **060782 – R** | Cais Llawn - Ailraddio Tir Amaethyddol Presennol yn Nant-y-Gro, Gronant (Tudalennau 29 - 42) |

| **Rhif Eitem** | **Cyfeirnod Cais** | **Disgrifiad** | **Aelod Lleol** | **Aelod o'r Cyhoedd** | **Ymgeisydd / asiant** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 | 060006 | 19 o fflatiau yng Nghlwb Gweithwyr y Fflint, Woodfield Avenue, Y Fflint. | Ymateb ynghlwm oddi wrth y Cynghorwyr Johnson a Cunningham, a ddangosir yn Atodiad 3 o'r adroddiad.<br><br>Dim ymateb gan Cyng Perfect | Dim ymateb | Ymateb ynghlwm, a ddangosir yn Atodiad 2 o'r adroddiad. |
| 1.2 | 060782 | Ailraddio tir amaethyddol presennol yn Nant-y-Gro. | Dim ymateb gan Cyng Braun | Dim ymateb | Ymateb ynghlwm, a ddangosir yn Atodiad 2 o'r adroddiad. |

**Gofynnir yn benodol i Aelodau nodi'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob adroddiad:**

- a) nodi a fyddech yn pleidleisio o blaid argymhelliad y swyddog; neu
- b) nodi a fyddech yn pleidleisio yn erbyn argymhelliad y swyddog, ac os felly, rhoi'r rhesymau yn glir pam y byddech yn pleidleisio yn erbyn argymhelliad y swyddog, neu
- c) nodi a fyddech yn pleidleisio o blaid argymhelliad y swyddog, ond yn amodol ar eglurhad o faterion penodol, a nodwch y materion hynny os gwelwch yn dda.

Bydd yr Aelodau hynny sy'n dewis c) uchod yn cael eu cysylltu gan y Prif Swyddog dros e-bost gydag eglurhad o'r materion o bryder a bydd yn gofyn am fewnbwn y swyddog cyfreithiol os oes angen. Os nad yw'r Prif Swyddog yn derbyn gohebiaeth pellach gan yr aelod hwnnw o fewn 24 awr, bydd yn tybio bod yr aelod dan sylw'n

fodlon gyda’r eglurhad a roddwyd, a bod yr Aelod yn pleidleisio o blaid argymhelliad y swyddog.

Bydd y Prif Swyddog yn anfon e-bost at holl Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio i gadarnhau’r penderfyniadau a wnaed.  Cyhoeddir y penderfyniadau ar wefan y Cyngor ar **Dydd Iau 30ain Ebrill, 2020**.